# YMARFERYDD TÎM O AMGYLCH Y DENANTIAETH (TATT)

TGP Cymru yw'r brif elusen yng Nghymru sy'n cefnogi ac yn cynrychioli plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n agored i niwed drwy amrywiaeth o brosiectau, hyfforddiant ac ymgyrchu. Caiff gwasanaethau TGP Cymru eu hariannu gan sawl cyllidwr ac mae'n darparu gwasanaethau ledled Cymru.

**Adran TGP Cymru:** Gwasanaethau Teulu

**Yn gyfrifol i:** Rheolwr y Tîm o Amgylch y Denantiaeth

**Lleoliad:** Gogledd Cymru – Wedi'i leoli gartref, ar hyn o bryd

**Diben y rôl:**

Cefnogi pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed, sydd wedi profi neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, i wneud newidiadau cadarnhaol parhaol yn eu bywydau.

**Cyfrifoldebau Atebolrwydd:**

- Paratoi / Annog / Cefnogi / Galluogi pobl ifanc, aelodau o'r teulu a gweithwyr proffesiynol i ymgysylltu a chyflawni eu canlyniadau a ddymunir.
- Cyflawni ymyriadau gan ddefnyddio amrywiaeth o fethodolegau gan gynnwys Dulliau Adferol, Datrys Gwrthdaro a Chyfarfodydd Grŵp Teuluol
- Rheoli llwyth achosion cymhleth, cofnodi nodiadau cywir a chasglu adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gweithwyr proffesiynol, mewn modd amserol.
- Datblygu elfennau o waith y Gwasanaeth fel y cyfarwyddir gan Reolwr y Tîm
- Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau TGP Cymru fydd yn cynnwys cyllid, adrodd, rheoli data a diogelu
- Hybu cyfle cyfartal ac arfer gwrth-wahaniaethu trwy'r gwaith a wneir o fewn y swydd
- Rhwydweithio yn briodol gyda chydweithwyr a'r gymuned, gan gynnwys datblygu ymwybyddiaeth o wasanaethau TGP Cymru ymhlith gweithwyr proffesiynol perthnasol

Ymgymryd â dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill o'r fath ag y gallai fod eu hangen yn rhesymol gan y Sefydliad ac sy'n gyson â'r radd.

**Dangosyddion Perfformiad**

- Yn gyfrifol am gyflawni dangosyddion perfformiad allweddol a safonau ymarfer.
- Ansawdd y gwasanaeth a chydymffurfio â safonau a gofynion statudol, rheoleiddiol, sefydliadol ac ymarfer gorau.
- Cyflawni amcanion a thargedau'r gwasanaeth a rhai unigol.

**Cyfrifoldeb ychwanegol:**
Dim

**Cyfrifoldeb rheoli llinell:**

| |
|---|
| 0 |
| **Cyfrifoldeb rheoli cyllideb:**<br>£0 |
| **Gradd:**<br>MS6 |
| **Amodau gwaith:**<br><br>22.5 – 30 awr yr wythnos i'w weithio dros 4/5 diwrnod (i'w drafod yn y cyfweliad).<br><br>Dull hyblyg o weithio'r wythnos waith a fydd yn cynnwys rhywfaint o waith penwythnos a gyda'r nos ac ambell i aros oddi cartref dros nos i fynychu cyfarfodydd, cynadleddau, neu hyfforddiant. Byddem yn ystyried rhannu swydd neu oriau rhan amser - i'w drafod yn y cyfweliad.<br><br>Teithio i wahanol leoliadau ar draws Gogledd Cymru |
| **Cymwysterau**<br><br>• Cymhwyster proffesiynol mewn gwaith cymdeithasol, gwaith ieuenctid a chymunedol neu ddisgyblaeth gysylltiedig fel Iechyd ac Addysg (dymunol)<br>• Cymhwyster proffesiynol mewn Tai (dymunol) |
| **Sgiliau a galluoedd / cymwyseddau**<br><br>Bydd deiliad y swydd yn gallu:<br><br>• cynhyrchu canlyniadau o ansawdd da mewn modd sy'n canolbwyntio ar y gwasanaeth yn amserol ac ymrwymo i sicrhau canlyniadau y cytunwyd arnynt<br>• gweithio'n dda gyda chydweithwyr a phartneriaid a chydnabod syniadau, safbwyntiau, a chefndiroedd gwahanol eraill<br>• cynllunio a threfnu gwaith a rheoli amser yn effeithiol<br>• cyfathrebu yn effeithiol gyda gweithwyr proffesiynol a phobl ifanc h.y. mynegi gwybodaeth a syniadau mewn modd clir, cryno a chywir; gwrando yn weithredol a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu.<br>• bod yn agored i ddulliau a syniadau newydd, ymateb yn gadarnhaol i newid ac addasu'n gyflym i sefyllfaoedd newydd<br>• chwilio am gyfleoedd i ddysgu'n barhaus a thwf proffesiynol |
| **Gwybodaeth / Profiad**<br><br>Bydd deiliad y swydd yn gallu dangos dealltwriaeth gadarn a hanes o gyflawni yn y canlynol:<br><br>• Gweithio gyda phobl ifanc a theuluoedd mewn sefyllfaoedd cymhleth gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar gryfderau<br>• Gweithio o fewn y sector digartref (dymunol)<br>• Digartrefedd yn cynnwys deddfwriaeth a gwasanaethau cefnogi<br>• Teuluoedd a pherthynas<br>• Cyfarfodydd Grŵp Teulu / Ymarfer Adferol / Datrys Anghydfod<br>• Gweithio aml-asiantaeth |

- Diogelu

**Arall**

- Arddangos gwerthoedd ac ymddygiad TGP Cymru bob amser a'u hyrwyddo'n weithredol
- Ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth
- Trwydded yrru lawn a cherbyd ar gael i'w ddefnyddio *(O dan rai amgylchiadau, gellir ystyried ymgeiswyr nad ydynt yn gallu gyrru o ganlyniad i anabledd.)*
- Y gallu i siarad Cymraeg (dymunol)